Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyngor Gwynedd – Crynodeb Archwilio Blynyddol 2025

Dyddiad cyhoeddi: Mawrth 2026



# Cynnwys

Cynnwys 2

Cyflwyniad 4

Cipolwg ar eich archwiliad 5

Canfyddiadau archwilio'r cyfrifon 6

Canfyddiadau archwilio perfformiad 9

Ansawdd archwilio 11

Gwybodaeth bellach 12

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Ni dderbynnir unrhyw atebolrwydd gan yr Archwilydd Cyffredinol, Swyddfa Archwilio Cymru na staff Swyddfa Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw ddibyniaeth ar y ddogfen hon neu ddefnydd arall ohoni gan unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na gweithiwr arall yn rhinwedd eu swydd unigol, neu unrhyw ddefnydd gan unrhyw drydydd parti.

I gael rhagor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o'n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat a/neu iaith arall, cysylltwch â ni dros y ffôn ar 029 2032 0500, neu drwy e-bostio post@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cyflwyniad



**Adrian Crompton**

Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'n bleser gennyf rannu fy Nghrynodeb Archwilio Blynyddol ar gyfer Cyngor Gwynedd (y Cyngor). Mae'n crynhoi'r prif ganfyddiadau o'm gwaith archwilio yn 2025 a gynhaliwyd i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Rhoddais farn ynghylch a oedd y cyfrifon wedi'u paratoi'n briodol, ac a oeddent yn rhoi darlun gwir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Mae fy nhîm archwilio hefyd wedi asesu a yw'r Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau y defnyddir adnoddau yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol, ac wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Wrth wneud hynny, mae fy nhîm archwilio wedi adolygu trefniadau comisiynu a rheoli cronfeydd wrth gefn. Fel y nodir yn fy nghynllun archwilio, mae'r adolygiadau hyn wedi'u cynnal yn unol â Safonau Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

Mae canfyddiadau manwl yr archwiliad ar gyfer pob un o fy adolygiadau wedi'u nodi yn yr adroddiadau priodol y mae fy nhîm archwilio wedi'u cyflwyno drwy gydol y flwyddyn. Mae'r adroddiadau archwilio perfformiad ar gael ar wefan Archwilio Cymru a cheir rhagor o ddolenni yn y crynodeb.

Dylid rhannu'r Crynodeb Archwilio Blynyddol gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio. Yna byddaf yn sicrhau bod y crynodeb ar gael i'r cyhoedd ar wefan Archwilio Cymru.

Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i swyddogion y Cyngor am eu cymorth a'u cydweithrediad drwy gydol fy archwiliad.

# Cipolwg ar eich archwiliad

Cefais y cyfrifon drafft yn unol â'r dyddiad cau statudol ar 30 Mehefin 2025. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a'r papurau gwaith yn foddhaol. Fodd bynnag, nodais gyfleoedd i'r Cyngor wella ansawdd rhai papurau gwaith ymhellach ac i gryfhau ei brosesau sicrhau ansawdd.

Rhoddais **farn ddiamod** ar y cyfrifon ar 19 Tachwedd 2025, yn dilyn cymeradwyaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025. Disgynnodd hyn ar ôl y dyddiad cau statudol o 31 Hydref, nad oedd modd ei gyflawni oherwydd amseriad cyfarfod y Pwyllgor.  Roedd sawl camddatganiad heb eu cywiro o hyd, er nad oedd dim ohonynt yn berthnasol. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Canfu fy ngwaith archwilio perfformiad  ar reoli cronfeydd wrth gefn fod gan y Cyngor drefniadau llywodraethu strwythuredig ond nid oes ganddo strategaeth ffurfiol i lywio ei benderfyniadau ar lefelau y cronfeydd hynny. Canfu fy ngwaith ar gomisiynu fod lle i'r Cyngor wella ei drefniadau i sicrhau cysondeb.

Gwnaeth fy nhîm argymhellion i'r Cyngor sefydlu trefniadau comisiynu ac i fabwysiadu strategaeth i lywio ei benderfyniadau ynghylch cronfeydd wrth gefn o ganlyniad i'r archwiliadau yn y meysydd hyn.

Mae fy nhîm archwilio wedi cwblhau'r gwaith archwilio fel y'i nodir yn fy Nghynllun Archwilio ar gyfer 2025.

# Canfyddiadau archwilio'r cyfrifon

Mae paratoi cyfrifon blynyddol yn rhan hanfodol o ddangos stiwardiaeth arian cyhoeddus. Mae'r cyfrifon yn dangos perfformiad ariannol y sefydliad ac yn nodi ei asedau net/cronfeydd wrth gefn, cyfanswm yr incwm a'r gwariant cynhwysfawr, a'i lif arian parod. Mae fy archwiliad blynyddol o'r cyfrifon hynny yn rhoi barn ynghylch a gafodd y cyfrifon eu paratoi'n briodol ac a oeddent yn rhoi golwg wir a theg, ym mhob agwedd berthnasol.

Disgrifir fy nghyfrifoldebau wrth archwilio'r cyfrifon yn fy nghyhoeddiadau Datganiad o Gyfrifoldebau sydd ar gael ar wefan Archwilio Cymru.

Cyflwynwyd y cyfrifon drafft i'w harchwilio ar 30 Mehefin 2025. Roedd hyn yn unol â'r dyddiad cau a bennwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd ansawdd y cyfrifon drafft a gyflwynwyd ar gyfer archwilio yn foddhaol ar y cyfan.

## Fy marn archwilio

Rhaid i mi roi gwybod am faterion sy'n codi o'm gwaith i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu i'w hystyried cyn i mi gyhoeddi fy marn archwilio ar y cyfrifon. Nodais y materion hyn yn fy Adroddiad Archwiliad o Gyfrifon i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 13 Tachwedd 2025.

### Cywirdeb y paratoi

Gwnaed nifer o newidiadau i'r cyfrifon drafft yn deillio o'm gwaith archwilio.

Roedd sawl camddatganiad heb eu cywiro yn deillio'n bennaf o wallau dosbarthu a phrisio o fewn Eiddo, Offer a Pheiriannau, yn ogystal â gwendidau wrth gymhwyso'r safon gyfrifyddu lesoedd IFRS 16 newydd a ddaeth i rym yn 2024-25.

Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol eraill i'w nodi.

Adroddais hefyd ar faterion eraill sy'n ymwneud â gweithredu Lesoedd IFRS16 ac ansawdd rhai papurau gwaith. Roedd angen ailddrafftio'r datgeliad lesoedd, gan nad oedd yn cydymffurfio'n llawn â gofynion y

safon. Yn ogystal â hyn, adroddais bod cyfleoedd o hyd i wella safon rhai papurau gwaith, a gallai cyflwyno proses sicrhau ansawdd gryfach gefnogi hyn, yn enwedig o ystyried yr uchelgais i ddod a dyddiad cau ardystio archwiliad ymlaen i fis Medi 2026 ar gyfer archwiliad cyfrifon 2025-26. Dylai'r gwelliannau hyn helpu i leihau nifer yr addasiadau wedi'u cywiro a heb eu cywiro sy'n codi yn ystod yr archwiliad.

Ni nododd fy ngwaith unrhyw wendidau perthnasol mewn rheolaethau mewnol (yn berthnasol i'm harchwiliad), ac ni wneuthum unrhyw argymhellion.

Paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif y Cyngor yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol ac â'm gwybodaeth i am y Cyngor.

Deuthum i'r casgliad bod cyfrifon y Cyngor wedi'u paratoi'n briodol ac yn gywir yn eu hanfod a rhoddais **farn archwilio ddiamod** arnynt.

## Cwblhau'r archwiliad

Cyhoeddais y dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o gyfrifon 2024-25 wedi'i gwblhau ar 19 Tachwedd 2025.

## Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan

Cynhaliais hefyd adolygiad o ffurflen Cyfrifon y Llywodraeth Gyfan a chyflwyno'r ffurflen yn unol â chyfarwyddiadau'r Trysorlys.

## Gwaith cyfrifon arall

Yn ogystal â'm cyfrifoldebau dros archwilio cyfrifon y Cyngor mae gennyf gyfrifoldeb hefyd am ardystio nifer o hawliadau a ffurflenni grant. Mae hawliadau am Bensiynau Athrawon, Cymhorthdal Budd-dal Tai ac Ardrethi Annomestig wedi eu hardystio.

Mae ein gwaith hyd yma wedi nodi mater yn ymwneud ag ardystio gwaith Sicrhau Ardrethi Annomestig y Cyngor. Nid oeddem yn gallu cwblhau'r gwaith ardystio yn llawn yn unol â'r gofynion a nodir yn ein Cyfarwyddyd Ardystio. Y dyddiad cau gwreiddiol ar gyfer ardystio oedd 17 Tachwedd 2025; fodd bynnag, oherwydd oedi sylweddol wrth dderbyn yr ymatebion angenrheidiol gan y Cyngor, nid oeddem yn gallu cwblhau'r gwaith erbyn y dyddiad hwnnw. O ganlyniad, gwnaethom gwblhau ac adrodd ar y gwaith

a wnaed erbyn y dyddiad cau estynedig o 30 Ionawr 2026, fel y cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru.

Ar adeg yr adroddiad, roedd fy nhîm archwilio yn dal i wneud y gwaith o ardystio'r hawliad Cymhorthdal Budd-dal Tai yn y Cyngor. Mae’r gwaith hwn i fod i gael ei gwblhau erbyn Chwefror 2026.

# Canfyddiadau archwilio perfformiad

## Trefniadau comisiynu

Ystyriodd fy nhîm sut mae trefniadau comisiynu’r Cyngor yn cymhwyso ystyriaethau gwerth am arian a’r egwyddor datblygu cynaliadwy. Roedd hwn yn archwiliad thematig a gynhaliwyd ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol.

Roedd y meini prawf archwilio yn pwysleisio y gall cymhwyso trefniadau comisiynu yn gyson ar lefel gorfforaethol gryfhau sicrwydd bod y Cyngor yn sicrhau gwerth am arian. Roedd y Cyngor yn gallu dangos lle roedd rhai gwasanaethau wedi cymhwyso'r meini prawf hyn, er enghraifft, gan gynnal arfarniad opsiynau trylwyr ar gyfer comisiwn hirdymor mawr. Canfuom fod y Cyngor yn defnyddio ystod eang o wybodaeth o ffynonellau mewnol ac allanol i ddatblygu ei ddealltwriaeth o'r ffactorau cyfredol a hirdymor sy'n debygol o effeithio ar wasanaethau comisiynu. Mae hefyd wedi nodi ffynonellau gwybodaeth a fydd yn ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau comisiynu yn y dyfodol a sut y gallai wella ei ddefnydd o ddata.

Fodd bynnag, canfûm nad oedd hwn yn ddull corfforaethol cyson, gan ein bod wedi nodi amrywiad ar draws yr enghreifftiau a archwiliwyd gennym.

Gwneuthum ddau argymhelliad sy'n canolbwyntio ar sefydlu ac ymgorffori trefniadau comisiynu corfforaethol cyson y gellir eu cymhwyso yn gymesur â graddfa ac arwyddocâd y gwasanaeth a gomisiynwyd.

## Defnydd Strategol o Gronfeydd wrth Gefn

Adolygodd fy nhîm sut mae'r Cyngor yn rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Canolbwyntiodd ar lywodraethu, rheoli risg, adrodd ariannol, a sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n strategol i sicrhau bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda i gefnogi sefydlogrwydd hirdymor. Canfûm fod gan Gyngor Gwynedd drefniadau llywodraethu clir a strwythuredig ar gyfer rheoli ei gronfeydd wrth gefn. Mae Prif Swyddog

Cyllid y Cyngor yn cynghori aelodau a swyddogion yn rheolaidd ar lefelau cronfeydd wrth gefn a defnydd. Cryfder allweddol yw proses "cynaeafu" barhaus y Cyngor, sy'n adolygu cronfeydd wrth gefn ar sawl adeg trwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes unrhyw strategaeth neu fframwaith ffurfiol i lywio penderfyniadau ar lefelau cronfeydd wrth gefn, a allai helpu i sicrhau bod cronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio'n effeithiol a darparu sicrwydd eu bod yn cyd-fynd yn gyson ag amcanion y Cyngor.

Gwneuthum argymhelliad i'r Cyngor fabwysiadu strategaeth i gefnogi gwneud penderfyniadau ar pryd a sut i sefydlu cronfeydd wrth gefn a monitro symiau’r balansau a ddelir.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt. Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau’n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio tair llinell o sicrwydd i ddangos sut rydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwylio’r trefniadau hynny. Rydym yn craffu’n annibynnol ar ein gwaith gan Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr, ac mae Cadeirydd y Bwrdd yn gweithredu fel cyswllt â’n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler Adroddiad Ansawdd Archwilio 2024.

**Ein Pobl**

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyliaeth ac adolygu

**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio Dewis y tîm cywir**

- Platfform archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technolegol

**Sicrwydd annibynnol**

- Adolygiadau Ansawdd Allanol
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddiad o wraidd y broblem
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

# Gwybodaeth bellach

Mae gan Archwilio Cymru amrywiaeth o wybodaeth arall i gefnogi gwaith craffu ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru, ac i barhau i wella'r gwasanaethau mae'n eu darparu i bobl yng Nghymru.

## Ewch i'n gwefan i weld:

Ein cyhoeddiadau sy'n ymdrin â'n gwaith archwilio mewn cyrff cyhoeddus.

Gwybodaeth am ein gwaith sydd ar ddod a'n rhaglen waith ar gyfer archwilio perfformiad.

Offer data i'ch helpu i ddeall tueddiadau gwariant cyhoeddus yn well.

Manylion ein gwaith a digwyddiadau Arfer Da gan gynnwys rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio.

Ein cylchlythyr sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi'n rheolaidd am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.